## PANEL PENODIADAU ARBENNIG

Cofnodion cyfarfod o'r Panel Penodiadau Arbennig, Pennaeth Gwasanaeth (Pennaeth Gwella Ysgolion) a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Iau, 22 Tachwedd 2007 am 9.30am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr H Evans, J Chamberlain-Jones, S Frobisher, M M Jones a J A Smith; y Prif Weithredwr a Chlerc y Sir.

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Personél (Linda M Jones).

## YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 523 MATERION BRYS

Dim

### 524 PENODI CADEIRYDD

***PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd J A Smith yn Gadeirydd y Panel*

### GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bo'r eitemau busnes canlynol yn cael eu trafod, gan eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hi ym Mharagraffau 12 a 13, Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

### 525 TREFNIADAU AR GYFER PENODI PENNAETH GWELLA YSGOLION

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr yr Aelodau at ei adroddiad (a rannwyd o'r blaen) yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer llenwi'r swydd yn barhaol o 2008. Gofynnwyd i'r Aelodau yn y cyfamser nodi'r trefniadau ar gyfer llenwi'r swydd dros dro .

Ystyriodd yr Aelodau tri mater yn benodol a amlinellwyd yn fanwl yn yr adroddiad sef:-

- y dull o recriwtio;
- Cyflog, gan gynnwys ychwanegiad marchnad, a
- y gofynion ieithyddol:

***PENDERFYNWYD** yn unfrydol gymeradwyo'r argymhellion sy'n gynwysedig yn yr adroddiad .*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15pm.

********